# YR ATODLENNI

## ATODLEN 4

### Telerau Gwasanaeth

**Archwiliadau llygaid**

**24.**—(1) Rhaid i gontractwr ddarparu archwiliad llygaid i berson o dan yr amgylchiadau yn is-baragraff (2).

(2) Yr amgylchiadau yw bod ymarferydd cymwysedig yn ystyried ei bod yn briodol yn glinigol i ddarparu archwiliad llygaid i berson—

(a) oherwydd canfyddiadau clinigol sydd wedi dod i'r amlwg wrth ddarparu gwasanaethau offthalmig cyffredinol neu yn ystod prawf golwg a ddarperir ac eithrio o dan y Ddeddf, i'r person hwnnw,

(b) yn dilyn argymhelliad gan broffesiynolyn gofal iechyd y dylai'r person gael archwiliad gan ymarferydd cymwysedig,

(c) oherwydd bod gan y person broblem llygaid acíwt, neu y gall fod ganddo broblem llygaid acíwt, neu

(d) at ddiben adolygu iechyd llygaid y person yn dilyn—

(i) triniaeth mewn ysbyty offthalmig, neu

(ii) archwiliad llygaid blaenorol o dan is-baragraff (c).

(3) Pan fo contractwr yn darparu archwiliad llygaid fel rhan o wasanaethau symudol, rhaid i'r contractwr gofnodi'r rheswm a roddir gan y claf, neu ar ei ran, pam y mae arno angen gwasanaethau symudol, ar y ffurflen gwasanaethau offthalmig sylfaenol.

(4) At ddibenion y paragraff hwn, ystyr "proffesiynolyn gofal iechyd" yw person sy'n aelod o broffesiwn a reoleiddir gan gorff a grybwyllir yn adran 25(3) o Ddeddf Diwygio'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Phroffesiynau Gofal Iechyd 2002(**1**) (yr Awdurdod Safonau Proffesiynol ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol).

(**1**) 2002 p. 17.